Safon Uwch Uned 3: Defnyddiau, technolegau a thechnegau

# 2.3.4 Dadansoddi adeileddol a chysur adeiladau

TAG UG a Safon Uwch
YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

## Termau allweddol

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| Dadansoddi adeileddol | Mae dadansoddiad adeileddol yn rhagweld ymateb adeiledd i lwythi allanol penodedig. |
| Llwythi adeileddol | Grymoedd ar adeileddau sy'n achosi diriannau, anffurfiad a dadleoliad yw llwythi adeileddol. |
| Llwythi marw | Llwyth a roddir ar adeiledd yn barhaol, gan gynnwys yr adeiledd ei hun, yw llwyth marw. |
| Llwythi byw | Llwythi sy'n gysylltiedig â deiliadaeth adeilad, fel pobl, dodrefn a nwyddau yw llwythi byw, neu lwythi y mae'n rhaid i adeileddau eu dal, fel traffig ar bont. |
| Elfen adeileddol | Mae elfen adeileddol yn cynnwys trawstiau haearn a dur, waliau, pren, cyplau a hytrawstiau. |

## Categorïau llwythi

### Llwythi crynodedig

Llwyth lle mae'r pwysau wedi'i grynhoi ar un pwynt, ar bellter penodedig o ben trawst, yw llwyth pwynt.

### Llwythi llinell

Mae llwyth llinell yn rhoi llwyth ar hyd llinell sydd wedi'i chreu gan adeiledd, fel pared.


### Llwythi gwasgaredig

Caiff llwyth gwasgaredig ei osod ar ardal, fel pwysau llawr neu do.

## Momentau plygu

Mesuriad o effaith grym allanol ar elfen adeileddol fel trawst neu gantilifer yw moment plygu.

### Trawstiau â chynhaliad syml



Adeiledd syml lle caiff trawst ei gynnal ar bob pen.

### Trawstiau cantilifer




Trawst a gaiff ei gynnal ar un pen.

### Fformiwlâu ar gyfer cyfrifo uchafswm moment plygu

Ar gyfer trawstiau â chynhaliad syml:

- Llwyth pwynt yn y canol – WL/4 lle mai W yw'r llwyth mewn kN, ac L yw rhychwant y trawst.




- Llwyth pwynt i ffwrdd o'r canol – Wab/L lle mai W yw'r llwyth ac L yw rhychwant y trawst.
- Llwyth wedi'i wasgaru'n gyson – $WL^2/8$ lle mai W yw'r llwyth ac L yw rhychwant y trawst.

Ar gyfer trawstiau cantilifer:

- Llwyth pwynt – WL lle mai W yw'r llwyth ac L yw hyd y cantilifer.
- Llwyth gwasgaredig – $WL^2/2$ lle mai W yw'r llwyth ac L yw hyd y cantilifer.

### Bydd yr uchafswm moment plygu yn digwydd:

- yng nghanolbwynt trawst â chynhaliad syml
  - pan fydd llwyth pwynt yng nghanol y trawst
  - pan fydd llwyth wedi'i wasgaru'n gyson, neu
- ar gynhaliad trawst cantilifer
  - pan fydd llwyth pwynt yn unrhyw le ar y cantilifer
  - pan fydd llwyth wedi'i wasgaru'n gyson.

Yn gyffredinol, er mwyn cyfrifo moment plygu, bydd angen lluosi grym â phellter. Caiff grymoedd eu mynegi mewn cilonewtonau, a phellter mewn metrau. Felly, yr uned ar gyfer moment plygu yw kNm.

I gael gwybodaeth am effaith newidiadau o ran tymheredd, acwsteg adeiladau a goleuadau, gwelwch y trefnwyr gwybodaeth ar gyfer 2.3.6, 2.3.7 a 2.3.8.